OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 3368

## Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) (Cymru) 2005

## RHAN 1

Rhagarweiniol

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "yr Asiantaeth" ("*the Agency*") yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd;

ystyr "awdurdod bwyd anifeiliaid" ("*feed authority*") yw awdurdod y nodwyd yn adran 67(1A) o'r Ddeddf bod ganddo'r ddyletswydd i orfodi Rhan IV o'r Ddeddf honno o fewn ei ardal;

ystyr "awdurdod gorfodi" ("*enforcement authority*") yw'r corff y nodwyd bod ganddo ddyletswydd i orfodi o dan reoliad 16;

ystyr "cyfraith bwyd anifeiliaid benodedig" ("*specified feed law*") yw'r Ddeddf a'r Rheoliadau a restrir yn Atodlen 1;

mae i "cyfran a samplwyd" ("*sampled portion*") yr ystyr a roddwyd yn Rhan 1 o Atodlen 1 i Reoliadau Bwyd Anifeiliaid (Samplu a Dadansoddi) 1999;

ystyr "y Cynulliad" ("*the Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "dadansoddwr amaethyddol" ("*agricultural analyst*") yw dadansoddwr amaethyddol a benodir o dan adran 67 o'r Ddeddf, ac mae'n cynnwys dirprwy ddadansoddwr a benodir ar gyfer yr un ardal;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Amaethyddiaeth 1970 (**1**);

ystyr "labordy sy'n cydymffurfio â phwynt 4" ("*point 4 compliant laboratory*") yw labordy sy'n cydymffurfio â'r pedwerydd a'r pumed indent o Atodiad II i Gyfarwyddeb y Comisiwn 2002/70/EC sy'n gosod gofynion i benderfynu ar lefelau diocsinau a deuffenylau polyclorinedig sy'n debyg i ddiocsinau mewn bwyd anifeiliaid(**2**);

mae "mangre" ("*premises*") yn cynnwys unrhyw sefydliad, unrhyw le, cerbyd, stondin neu adeiledd symudol ac unrhyw long neu awyren;

ystyr "modd rhagnodedig" ("*prescribed manner*") yw'r modd a ragnodir gan Reoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Samplu a Dadansoddi) 1993(**3**) neu fel arall yn unol ag Erthygl 11(1) o Reoliad 882/2004;

(**1**) 1970 p. 40.
(**2**) O.J. Rhif L209, 6.8.2002, t.15.
(**3**) O.S. 1999/1663 fel y'i diwygiwyd mewn perthynas â Chymru gan O.S. 1999/1871, O.S. 2001/2253 (Cy.163), O.S. 2002/1797 (Cy.172), O.S. 2003/1677 (Cy.180), O.S. 2003/1850 (Cy.200), O.S. 2003/3119 (Cy.297), O.S. 2004/1749 (Cy.186) ac O.S. 2004/3091 (Cy.265).

ystyr "Rheoliad 178/2002" ("*Regulation 178/2002*") yw Rheoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cygnor yn gosod gofynion ac egwyddorion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop a gosod gweithdrefnau ym materion diogelwch bwyd;

ystyr "Rheoliad 882/2004" ("*Regulation 882/2002*") yw Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gyflwynir i sicrhau y dilysir cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid a rheolau iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid (**4**);

ystyr "Rheoliad 183/2005" ("*Regulation 183/2002*") yw Rheoliad (EC) Rhif 183/2005 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn gosod gofynion ar gyfer hylendid bwyd anifeiliaid(**5**));

ystyr "swyddog awdurdodedig" ("*authorised officer*") yw person (p'un a yw'n swyddog o'r awdurdod gorfodi ai peidio) sydd wedi'i awdurdodi gan neu ar ran yr awdurdod gorfodi, naill ai'n gyffredinol neu'n benodol, i weithredu mewn materion sy'n codi o dan y Rheoliadau hyn.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae i ymadroddion eraill a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac yn Rheoliad 178/2002, Rheoliad 882/2004 neu Reoliad 183/2005 yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn ag yn y Rheoliad hwnnw.

(3) Yn y Rheoliadau hyn nid yw "bwyd anifeiliaid" yn cynnwys unrhyw un o'r ychwanegion bwyd anifeiliaid neu rag-gymysgeddau o'r cyfryw ychwanegion—

(a) cocsidiostatwyr;

(b) histomonostatwyr; ac

(c) pob ychwanegyn soötechnegol arall ac eithrio—

(i) hyrwyddwyr treulio,

(ii) sefydlogyddion fflora'r perfedd, a

(iii) sylweddau sydd wedi'u hymgorffori gyda'r bwriad o gael effaith ffafriol ar yr amgylchedd.

(4) Ar wahân i'r paragraff hwn, pan fo unrhyw gyfnod o lai na saith diwrnod a nodir yn y Rheoliadau hyn yn cynnwys unrhyw ddiwrnod—

(a) sy'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, yn Ddydd Nadolig neu'n ddydd Gwener y Groglith; neu

(b) sy'n ŵyl y banc o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(**6**),

bydd y cyfryw ddiwrnod yn cael ei eithrio o'r cyfnod.

(**4**) OJ Rhif L191, 28.5.2004, p.1.
(**5**) OJ Rhif L35, 8.2.2005, p.1.
(**6**) 1971 p.80.